**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DB/0019/25

Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

26 Chwefror 2026

Annwyl Peter,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Chwefror, yn ailadrodd pryderon y Pwyllgor ynghylch y cymorth i ofalwyr di-dâl, ac yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf ac ymateb ar gamau gweithredu arfaethedig yn y dyfodol.

Yn gyntaf, hoffwn gadarnhau fy ymrwymiad parhaus i wneud ein gorau glas i gefnogi ffyrdd gwell o nodi, cydnabod a rhoi cymorth i ofalwyr di-dâl. Rydych yn gwybod o'm presenoldeb ar 22 Ionawr nad wyf yn gwbl sicr bod pob awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol i ofalwyr di-dâl ac roeddwn wedi cymryd camau i ddod â'm pryderon i sylw Arweinwyr Cynghorau. Rwyf hefyd yn gyrru cynllun gwella cenedlaethol drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl.

Ymateb i'r pwyntiau penodol a godwyd yn eich llythyr:

1. Ysgrifennais at Arweinwyr Cynghorau ar 12 Rhagfyr ynghylch mor bwysig ydyw bod yr awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â gofalwyr di-dâl a gofynnais am amlinelliad o'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau gwelliant, yn benodol o ran mynediad at asesiadau o anghenion gofalwyr. Ceisiais sicrwydd bod yr awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n weithredol â'r cynllun gwella sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac sy'n cael ei oruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl. Gofynnais iddynt hefyd gynnal adolygiad o'u darpariaeth seibiant ac ystyried manteision o ddefnyddio dull gweithredu rhanbarthol o ran seibiant.

   Cawsom ymateb oddi wrth bob un o'r awdurdodau lleol. Mae'r holl arweinwyr wedi ymrwymo i ymgysylltu â chynllun gweithredu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'i roi ar waith. Cydnabu'r holl arweinwyr fod meysydd i'w gwella o ran y cymorth i ofalwyr di-dâl yn eu hawdurdodau lleol. Crybwyllodd y mwyafrif o arweinwyr y gwaith datblygu diweddar a chynlluniau ar gyfer gwaith gwella pellach eleni. Nododd rhai agweddau ar arferion da yr oeddent am dynnu sylw atynt. Soniodd sawl un am argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) fel sbardun ar gyfer gwella. Ymrwymodd arweinwyr i adolygu'r ddarpariaeth seibiant. Tynnodd rhai sylw at gydweithredu rhanbarthol sydd eisoes ar waith, tra croesawodd eraill yr awgrym o ystyried dull

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithredu cynyddol o ran seibiant.

Roedd amrywiad ym maint y gwelliant y mae ei angen a graddfa'r manylder a gynhwysir yn yr ymatebion. Nid yw'n bosibl nac yn briodol asesu a yw awdurdod lleol penodol yn cyflawni ei swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol yn seiliedig ar lythyr yn unig. Rydym felly wedi cymryd y camau canlynol:

- Rydym wedi adolygu'r llythyr oddi wrth bob awdurdod lleol yn ofalus, gan dynnu allan pwyntiau i ymchwilio iddynt ymhellach.
- Rydym wedi cyfarfod ag AGC i ystyried opsiynau ynghylch ei chymorth a'i rôl wrth sbarduno gwelliant.
- Rydym wedi anfon holl ymatebion yr awdurdodau lleol at AGC i'w hadolygu.
- Rydym wedi cytuno ag AGC y bydd ei chyfarfodydd nesaf a gynhelir ddwywaith y flwyddyn â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/Penaethiaid Gwasanaethau yn cynnwys cymorth i ofalwyr di-dâl fel llinell ymholi allweddol. Mae'r cyfarfodydd hyn ym mis Ebrill yn rhan o broses sicrwydd ffurfiol AGC, a byddwn yn cytuno ar gwestiynau pwrpasol ar gyfer pob awdurdod lleol, yn deillio o'r llythyr ymateb a ddaeth i law.
- Bydd AGC yn rhoi ei dadansoddiad o'r trafodaethau hyn inni, a byddwn yn eu defnyddio i benderfynu ar y camau nesaf.
- Mae AGC yn ymgysylltu â gofalwyr di-dâl drwy gydol y flwyddyn, a byddwn yn cytuno ar gwestiynau penodol i'w hychwanegu at y trafodaethau hyn. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth bellach am brofiad gofalwyr di-dâl yn ardaloedd yr awdurdodau lleol.

Bydd y camau hyn yn rhoi golwg fwy manwl a gwybodus o'r cymorth i ofalwyr di-dâl ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru, yng nghyd-destun eu dyletswyddau a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

2. Os bydd pryderon yn deilio o unrhyw un o'r cyfarfodydd â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/Penaethiaid Gwasanaethau ym mis Ebrill, byddwn yn trafod camau pellach posibl ag AGC. Pan fo AGC wedi trefnu arolygiad o awdurdod lleol lle mae gennym bryderon, bydd AGC yn canolbwyntio'n benodol ar gymorth i ofalwyr di-dâl. Os nad yw arolygiaeth o awdurdod lleol lle mae gennym bryderon wedi'i drefnu eleni, byddwn yn trafod camau cymesur pellach ag AGC.

3. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu drwy'r setliad llywodraeth leol blynyddol heb ei neilltuo, gan gydnabod mai mater i aelodau etholedig cynghorau yw penderfynu sut y defnyddir y cyllid hwn. Rwyf yn cydnabod y pwysau sydd ar wasanaethau a bydd cynghorau'n cael £112.8m yn ychwanegol ar gyfer y setliad yn 2026-27 i ddarparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys gofal cymdeithasol, drwy ein cytundeb â Phlaid Cymru. Mae hyn yn gynnydd o 4.5%, gyda mwy na 4% yn cael ei warantu i bob awdurdod. Roedd gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth a godwyd gan gynghorau ac felly byddwn yn disgwyl iddynt sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

   Yn ogystal â'r grant cynnal refeniw, byddwn hefyd yn dyrannu dros £175m i gyflawni ein nodau polisi gofal cymdeithasol a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyllid pwrpasol i ofalwyr di-dâl.

   Yn 2025-26 darparwyd £13m o gyllid yn benodol ar gyfer gofalwyr di-dâl. Roedd hyn yn cynnwys:

- £7.35m i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi gwasanaethau i ofalwyr drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (o leiaf 5% o'r gronfa gyffredinol).
- £1m o hyn (£7.35m) wedi'i neilltuo ar gyfer cymorth i ofalwyr pan fydd y person sy'n derbyn gofal yn cael ei dderbyn i'r ysbyty/ei ryddhau o'r ysbyty.
- £717,000 i'n sefydliadau gofalwyr cenedlaethol ar gyfer rhaglenni a darparu gwasanaethau i ofalwyr i hyrwyddo eu llesiant a darparu cyngor a chymorth.
- £3.5m ar gyfer darparu'r Gronfa Seibiannau Byr.
- £1.75m ar gyfer darparu'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr.

Bydd y cyllid hwn yn parhau i fod yn ei le ar gyfer 2026-27.

4. Mae'r llythyr a anfonais at bob Arweinydd Cyngor yn nodi disgwyliad clir bod arweinwyr yn ceisio sicrwydd eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol gyda ffocws penodol ar asesiadau gofalwyr a seibiant. Mae'r bwriad i fynd ar drywydd hyn ymhellach drwy AGC yn briodol fel rheoleiddiwr ac arolygydd swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, sydd â phwerau penodol yn hyn o beth.

   Yn ogystal, mae'r cynllun gweithredu gwella presennol a arweinir gan ADSS Cymru yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Caiff y cynllun gweithredu presennol ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Byddwn yn cytuno ar gamau nesaf y gwaith gwella cenedlaethol yn seiliedig ar yr adroddiad cynnydd terfynol ar y gwaith hwn, a chanfyddiadau:

   - Ymchwiliad Pwyllgor y Senedd.
   - Canfyddiadau AGC o'i waith craffu ar yr awdurdodau lleol a amlinellir uchod.
   - Gwybodaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ein strategaeth genedlaethol ddrafft ar gyfer gofalwyr di-dâl 2026.
   - Canfyddiadau adroddiad dilynol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

   Bydd ffrydiau gwaith sy'n cael eu goruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn gweithio i amcanion ac amserlenni penodol.

5. Camau penodol eraill yr wyf yn bwriadu eu cymryd cyn diwedd y tymor yw:

   - Dywedais ar 22 Ionawr y byddwn yn ceisio nodi a oedd unrhyw gymorth ychwanegol y gellid ei ddarparu i'r awdurdodau lleol. Roeddwn yn siomedig o glywed nad oeddent yn rhoi cynllun cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc ar waith. Rydym yn parhau i edrych ar hyn.
   - Byddwn yn ceisio barn gofalwyr di-dâl a'u cynrychiolwyr drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.

6. O ran camau gweithredu ar draws portffolios, rwyf yn falch bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn pennu manylion terfynol adroddiad ar lesiant a phrofiad addysgol gofalwyr ifanc. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, a drafodwyd yn y gwrandawiad ar 22 Ionawr. Mae'n adlewyrchu cam cyntaf y gwaith i wella argaeledd data a'n dealltwriaeth o ganlyniadau i ofalwyr ifanc.

   Mae'r canllawiau presennol ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty yn cynnwys manylion i staff i'w helpu i nodi gofalwyr di-dâl ac yn darparu gwybodaeth am gyfeirio gofalwyr at wybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i staff ystyried amgylchiadau gofalwr di-dâl a rhaid i hyn fod yn rhan o'r sgyrsiau cynllunio rhyddhau yn ystod arhosiad y claf yn yr ysbyty. Mae'r canllawiau yn nodi bod llesiant gofalwyr yn hanfodol i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn llwyddiannus.

Er bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd o'r blaen i wella amlygrwydd a phwysigrwydd cymorth i ofalwyr di-dâl o fewn ein canllawiau, byddwn yn defnyddio'r adolygiad blynyddol presennol i gryfhau hyn ymhellach lle bo angen. Mae'r broses adolygu ehangach ar y gweill, a byddwn yn ystyried cynnwys presennol i'w ddiweddaru dros y misoedd nesaf a'i gyhoeddi erbyn diwedd yr haf.

Rydym yn gweithio'n agos hefyd â'r rhai sy'n datblygu canllawiau ar gyfer rhyddhau cleifion ag iechyd meddwl ac anableddau dysgu o'r ysbyty. Er ei bod yn ddyddiau cynnar o ran datblygu hyn, mae'n cynnig cyfle pellach i sicrhau bod proffil gofalwyr di-dâl, a'r cymorth a'r hawliau sydd ar gael iddynt, yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol mewn canllawiau i staff yn y lleoliadau hyn.

7. Bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd hyn yn nodi'n glir y camau gweithredu a'r canlyniadau arfaethedig i wella'r broses o nodi, cydnabod, darparu gwybodaeth a chyngor, asesu a chymorth i'n gofalwyr di-dâl. Mae hon yn strategaeth fanwl a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau a amlinellwyd i ni yn yr ymarfer ymgysylltu helaeth a gynhaliwyd gyda gofalwyr a'u cynrychiolwyr yn yr haf. Caiff addasiadau eu gwneud i'r strategaeth oherwydd yr adborth a ddaeth i law yn y broses ymgynghori. Bydd gan y weinyddiaeth newydd, felly, farn glir a chyfoes o'r blaenoriaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl.

8. Mae'r arweinydd ar gyfer cynllun gweithredu ADSS Cymru yn adrodd ymgysylltu cryf gan yr awdurdodau lleol ledled Cymru, gyda chyfrifoldeb dros wahanol agweddau ar y cynllun gweithredu yn cael eu rhannu ar draws ardaloedd y byrddau partneriaeth rhanbarthol. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys:

   - Mae archwiliadau o'r wybodaeth sydd ar gael i ofalwyr ar wefannau pob awdurdod lleol a sefydliadau'r trydydd sector wedi nodi enghreifftiau o arferion da ac argymhellion i wella cysondeb ac ansawdd gwybodaeth.
   - Mae adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i staff gofal cymdeithasol ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru wedi nodi cryfderau a meysydd y mae angen eu gwella.
   - Mae gwaith wedi nodi'r arferion gorau ym maes cofnodi asesiadau gofalwyr a chynlluniau cymorth ar systemau TG yr awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau dull gweithredu cliriach a chyson. Dylai hyn wella mynediad at wybodaeth i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol a gwella ansawdd y data a gesglir.
   - Mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â therminoleg a chyfathrebu anghyson i wella eglurder i ofalwyr ac ymarferwyr.
   - Mae mapio'r defnydd o daliadau uniongyrchol ar gyfer gofalwyr wedi nodi bylchau ac anghysondebau. Caiff arferion gorau eu hyrwyddo i ardal pob awdurdod lleol i gynyddu cynigion a'r nifer sy'n nifer sy'n cael taliadau uniongyrchol, y gellir eu defnyddio i drefnu gofal amgen (seibiant).
   - Bydd adolygiad o hyfforddiant, sgiliau a chymhwysedd staff sy'n cynnal asesiadau gofalwyr yn gwneud argymhellion. Cyn hyn, mae fideos hyfforddi ychwanegol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau ac yn darparu gwybodaeth a chyngor cynnar yn cael eu cynhyrchu.

   Rwyf yn disgwyl adroddiad terfynol ar y gwaith hwn erbyn 31 Mawrth. Bydd y cyfnod gweithredu ar gyfer rhai camau gweithredu yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad hwn, o gofio mai gwaith i Gymru gyfan yw'r gwaith hwn. Er hynny, byddaf yn ceisio amserlen bellach ar gyfer rhoi'r camau hyn ar waith yn llawn, a gaiff eu goruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

9. Rydym yn sicr bod deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu fel rhan o gynllun gweithredu ADSSC yn cynnwys pwysigrwydd canfod bod y gofalwr yn ‘fodlon ac yn abl’.

Mae'r canllawiau presennol ar gyfer Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty yn nodi bod rhaid i'r person fod yn 'fodlon ac yn abl' i ddarparu gofal, a bod i ba raddau y mae gofalwr yn fodlon ac yn abl yn rhan o'r asesiad statudol ffurfiol o anghenion gofalwr. Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn glir bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod ar draws pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth yn gyfrifol am asesiadau cymesur o anghenion gofalwr.

10. Byddaf yn siarad ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â chyfleoedd i godi proffil gofalwyr di-dâl o fewn y system gofal sylfaenol.
    Mae fy swyddogion wedi cyfarfod â'u cymheiriaid mewn gofal sylfaenol i baratoi ar gyfer y drafodaeth hon, i nodi meysydd penodol lle y gellir gwneud gwelliannau.

11. Os ydym yn gallu nodi unrhyw gymorth ariannol y flwyddyn ariannol hon i'r awdurdodau lleol hynny lle bydd hyn yn adfywio eu cynllun cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc, byddwn yn gwneud hynny.

12. Gwnaeth y mwyafrif o'r ymatebion a ddaeth i law odi wrth yr awdurdodau lleol amlinellu parodrwydd i ystyried ymagwedd fwy rhanbarthol at seibiant neu nodi bod cydweithredu rhanbarthol eisoes ar waith. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion fynd ar drywydd ymgysylltu ymhellach â byrddau partneriaeth rhanbarthol unigol a/neu fforymau gofalwyr rhanbarthol i ddilyn y potensial ar gyfer gwella yn seiliedig ar ddull gweithredu mwy rhanbarthol. Mae hyn yn ychwanegol at y llinell ymchwiliad allweddol sy'n cael ei chynnal gan AGC fel yr amlinellir ym mhwyntiau 1. a 2. o'r llythyr hwn.

Diolch ichi am y cyfle i roi rhywfaint o wybodaeth bellach a diweddariadau i'r ymchwiliad.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care